**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-895
Ein cyf/Our ref LG/00266/21

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

4 Mawrth 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 09 Chwefror ynglŷn â Deiseb P-05-895, Etifeddiaeth Rosa.

Fel yr amlinellwyd yn fy llythyr blaenorol, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Rhwydwaith Lles Anifeiliaid (AWNW) a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y BVA (Cymdeithas Milfeddygol Prydain). Byddwch yn sylweddoli bod yr effaith y mae'r achosion o Covid-19 yn parhau i'w chael wedi golygu bod blaenoriaethau wedi newid wrth inni fynd i'r afael â meysydd megis gwaith i ddarparu gwasanaethau sy'n diogelu iechyd y cyhoedd, yn diogelu anifeiliaid rhag clefydau statudol ac yn sicrhau nad yw lles anifeiliaid yn cael ei beryglu. Mae'r pwysau ar wasanaethau milfeddygol wedi bod yn aruthrol ac maent wedi gorfod penderfynu ble a sut i hoelio'u sylw yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Ar hyn o bryd, mae'n flin gennyf na allaf roi amserlen fanwl ar gyfer ailgydio yn y gwaith cwmpasu hwn, ond byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi pan fydd hynny'n bosibl.

Cofion,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.